

**Ymgynghoriad ar gynnig i ffedereiddio**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes**

**ac**

**Ysgol Uwchradd Llanidloes**



**Rhagfyr 2018**

## CYNNWYS

1. Y cynnig
2. Ymateb i'r ymgynghoriad
3. Cyd-destun strategol
4. Ysgolion a effeithir
5. Beth yw ffedereiddio?
6. Y broses ffedereiddio
7. Manteision a heriau ffedereiddio
8. Modelau eraill a ystyriwyd
9. Effaith ffedereiddio

Atodiad A Crynodeb o'r broses ffedereiddio

Atodiad B Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

## 1. Y CYNNIG

Mae Llywodraethwyr, penaeithaid ac uwch arweinwyr Ysgol Gynradd Gymunedol Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes yn credu mai nawr yw'r amser cywir i ystyried ffedereiddio'r ddwy ysgol.

Mae ein dwy ysgol ragorol eisoes yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae ein trefniadau pontio yn gryf, mae ymrwymiad cadarn i hyrwyddo'r ethos Gymreig yn bodoli yn y ddwy ysgol ac mae perthnasau proffesiynol rhagorol yn bodoli ar bob lefel. Ond nid ydym am sefyll yn ein hunfan ar adeg o her a newid mawr o fewn Powys, a'r sector addysg yn ehangach.

Mae seiliau gwaith partneriaeth dyfnach eisoes wedi'u gosod. Credwn y bydd ffedereiddio yn ein helpu i ddiwallu anghenion amrywiol ein disgyblion hyd yn oed yn fwy effeithiol. Mae'r gred hon wrth wraidd ein cynnig i ffedereiddio.

Mae'r ddau gorff llywodraethol wedi cytuno i ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid ar y cynnig canlynol:

***'Bod Ysgol GG Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes yn sefydlu ffederasiwn rhwng y ddwy ysgol o dan y 'Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014'***

Enw gweithredol y ffederasiwn yw 'Ffederasiwn Ysgolion Llanidloes'.

Pwrpas y ddogfen hon yw i rannu gwybodeth efo rhanddeiliaid ynglŷn â ffedereiddio a beth fyddai hyn yn ei olygu i'r ysgolion.

Gwahoddir eich cwestiynnau a sylwadau ar y cynnig a'r wybodaeth a geir yn y ddogfen. Mae gwybodaeth ynglŷn â sut i ymateb ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon. Rhaid i'r holl ymateb gael eu derbyn erbyn **Dydd Gwener 25ain o Ionawr 2019**.

**Os oes gennych unrhyw gwestinnau yna mae croeso i chi ofyn i'r Llywodraethwyr yn uniongyrchol.**

## **2. YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

**Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar Ddydd Mercher 5ed Rhagfyr 2018 ac yn gorffen ar Ddydd Gwener 25ain o Ionawr 2019.**

Yn unol â'r canllawiau, mae'r ddogfen ymgynghori yn cael ei anfon at y canlynol:

- Yr awdurdod lleol
- Cyngorau ysgol y ddwy ysgol
- Holl staff cyflogedig yn y ddwy ysgol
- Rhieni/gofalwyr pob rhiant cofrestredig yn y ddwy ysgol
- Undebau llafur
- Unrhyw bersonau perthnasol eraill yn ol dymuniad y llywodraethwyr.

Ar ol y cyfnod ymgynghori, mi fydd y ddau gorff yn cynnal cyfarfod ar y cyd er mwyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac i benderfynnu i fwrw ymlaen efo'r cynnig neu beidio.

Rydych yn medru ymateb drwy:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb arlein ar y safle yma  
<https://customer.powys.gov.uk/article/6455/Llanidloes-Schools-Federation>
- Cwblhau'r ffurflen ymateb sydd wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B a'i bostio i'r cyfeiriad isod
- Anfon ymateb ysgrifenedig at y cyfeiriad isod; neu
- Ebostio ymateb at [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)

Tim Trawsnewid Ysgolion

Cyngor Sir Powys

Llandrindod Wells

Powys

LD1 5LG

### **AMSERELEN**

- 5 Rhagfyr 2018 – Ymgynghoriad yn dechrau
- 25 Ionawr 2019 – Ymgynghoriad yn gorffen
- Mawrth 2019 – Cyrff Llywodraethol yn cwrdd i wneud penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r cynnig i ffedereiddio neu beidio
- 1 Medi 2019 – ffederasiwn yn weithredol (petai'r Cyrff Llywodraethol yn cytuno i weithredu'r cynnig

### 3. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

Ym Mawrth 2018, cytunwyd Polis Trefnidaeth Newydd gan Gabinet Cyngpr Sir Powys, sy'n gosod dyheadau'r Cyngor ar gyfer y strwythur ysgolion ym Mhowys. Mae'r polisi yn dweud:

'Nod y Cyngor yw cael model addysgol sy'n cyflawni'r canlynol:

- Rhoi cyfle i bob dysgwr gyflawni ei botensial
- Bod ag arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn o ansawdd uchel
- Bod ag amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, gyda'r nod hirdymor y bydd pob ysgol yn cael ei hasesu fel rhai cyflwr A neu B
- Canolbwyntio'n fwy ar gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr
- Galluogi ysgolion i weithredu'n effeithiol ac effeithlon o fewn yr arian sydd ar gael
- Cynyddu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a darparu mynediad at ddarpariaeth a fydd yn galluogi disgyblion i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus
- Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolog i weithgaredd cymunedol
- Bod â seilwaith TGCh o ansawdd uchel a fydd yn galluogi pob ysgol i ddarparu cyfleoedd gwell i ddysgwyr
- Sicrhau mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o safon uchel
- Rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cyd-fynd â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) newydd
- Darparu mynediad at ddarpariaeth ôl-16 o ansawdd uchel mewn ysgolion, sy'n ddeniadol i ddysgwyr, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn lleihau teithio i ddysgwyr.

Mae'r Polisi hefyd yn dweud y canlynol:

Er mwyn symud tuag at rwydwaith ysgolion mwy effeithlon, bydd Cynllun Cyflawni newydd yn cael ei weithredu gyda mwy o ffocws ar weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac ar fodelau eraill o ddarparu addysg, megis modelau cydweithio, ffedereiddio, ysgolion ar aml-safle ac ysgolion pob oed.

Bydd Cynllun Cyflawni'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau canlynol:

- Ysgolion uwchradd i ddod yn 'ysgolion pob oed', neu'n rhan o drefniadau aml-safle

- Ysgolion cynradd bach<sup>1</sup> i fod yn rhan o gydweithrediadau / ffederasiynau / cynlluniau uno ffurfiol
- Dileu'r rhaniad babanod / plant iau trwy greu ysgolion cynradd 'pob oed'
- Sefydlu darpariaeth newydd cyfrwng Cymraeg
- Gwelliannau i ystâd ysgolion Powys, naill ai fel rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru, neu fel rhan o Raglen Rheoli Asedau'r Cyngor
- Gweithredu model newydd ar gyfer cyflwyno darpariaeth ôl-16
- Trawsnewid y dull o ddarparu cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau uchod, bydd y Cyngor yn annog pob ysgol i:

- Nodi meysydd lle gellir rhannu staff a /neu wasanaethau ar draws mwy nag un ysgol er mwyn gwella effeithlonrwydd
- Datblygu'r defnydd o gysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgol i ddarparu cyfleoedd dysgu o bell

Mae'r cynnig i ffedereiddio Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes yn unol â'r blaenoriaethau hyn.

#### 4. YR YSGOLION A EFFEITHIR

Mae Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes wedi'u cyd-leoli yn nhref Llanidloes. Mae Ysgol Gynradd Llanidloes yn ysgol cyfrwng Saesneg sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion o 5 tan 11 oed. Mae Ysgol Uwchradd Llanidloes yn ysgol ddwy-ffrwd sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 18 oed. Mae gan y ddwy ysgol brifathrawon parhaol.

##### i) Niferoedd disgyblion a rhagamcanion

	2018	2019	2020	2021	2022
Ysgol Gynradd Llanidloes	283	290	284	273	280
Ysgol Uwchradd Llanidloes	545	565	593	627	647

<sup>1</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'ysgol fach' fel ysgol sy'n cynnwys llai na 91 o ddisgyblion cofrestredig yn y Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1133/made>

**ii) Capasiti**

	Capasit	Nifer disgyblion	O dan/Dros capasiti
Ysgol Gynradd Llanidloes	269	283	14 O dan capasiti
Ysgol Uwchradd Llanidloes	692	545	147 Dros capasiti

**iii) Cyflwr adeiladau**

	Condition	Suitability	Sustainability
Ysgol Gynradd Llanidloes	C	B	C
Ysgol Uwchradd Llanidloes	C	B	C

## 5. BETH YW 'FFEDERASIWN'?

Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae ysgolion yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethol.

**'Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg i wella canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o ymestyn cydweithredu a hyrwyddo perthnasau gweithio agosach a dyma'r prif gynllun ar gyfer cyflawni gwaith partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion difreintiedig.'**<sup>2</sup>

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol trwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er lles gorau'r holl ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn hwnnw. Mae pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff ac yn parhau i fod yn ei chymuned.

Fel arfer mae ysgolion mewn ffederasiwn yn cael eu harolygu'n unigol gan Estyn, ac mae'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yn casglu data gan yr ysgolion yn unigol.

Mewn cymunedau gwledig ar draws Cymru, mae ffederasiwn yn gyfle i gryfhau cynaladwyedd ysgolion, ac yn sicrhau bod ysgolion yn gallu parhau i fodoli yn eu cymunedau lleol. Mae ffedereiddio hefyd yn galluogi grwpiau llai o ddisgyblion a staff i gydweithio a rhannu arfer dda, syniadau ac adnoddau.

---

<sup>2</sup> p3 'Y broses o ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol'



## **6. Y BROSES FFEDEREIDDIO**

Gall cynnig i ffedereiddio ysgolion gael ei wneud gan yr awdurdod lleol neu gan llywodraethwyr. Mae'r cynnig hwn yn cael ei wneud gan lywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes.

Mae yna broses benodol i'w dilyn er mwyn sefydlu ffederasiwn. Mae'r broses wedi'i amlinellu yn Nghylchlythyr 011/2014 Llywodraeth Cymru 011/2014, 'Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014.

Mae'r broses wedi'i chrynhof yn Atodiad A.

Gellir darllen y ddogfen ganllawiau llawn ar-lein ar:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/school-governance/federation-of-maintained-schools/?lang=en>.

Os oes unrhyw ysgol unigol eisiau gadael y ffederasiwn, byddai rhaid i hyn gael ei gytuno gan Gorff Llywodraethol y ffederasiwn, yn dilyn cynnig ysgrifenedig gan yr ysgol/ion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn.

Hefyd, mae hawl gan Gorff Llywodraethol y ffederasiwn i atal y ffederasiwn os ydynt o'r farn bod y ffederasiwn ddim yn gweithio i ddisgyblion, rhieni, staff neu lywodraethwyr.

## 7. MANTEISION A HERIAU FFEDEREIDDIO

Mae corff ymchwil cynyddol yn awgrymu bod ffederasiynau'n hynod effeithiol o ran gwella cynnydd disgyblion, ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion sy'n cymryd rhan (gweler y tabl isod).

Dywed Cwricwlwm am Oes Llywodraeth Cymru, *'dylai gwahanu'r cwricwlwm ar hyn o bryd i gyfnodau a chyfnodau allweddol gael ei ddirwyn i ben .... dylid gweld y cyfnod o addysg statudol (o leiaf), yn gyfanwaith cydlynol a dilynol gan gynnwys y symud rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd'*. Bydd ffedereiddio ysgolion cynradd ac uwchradd Llanidloes yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i sicrhau dilyniant rhagorol i'r disgyblion wrth iddynt symud rhwng cyfnodau.

Manteision
<b>Disgyblion ac athrawon</b>
Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Ofsted (Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau) ym Medi 2011 ar effaith ysgolion ffederal yn Lloegr fod gwelliannau yn amlwg mewn tri maes allweddol sef <b>addysgu a dysgu, ymddygiad a chyflawniad disgyblion</b> . <sup>3</sup>
Mewn ysgolion lle'r oedd y ffederasiwn yn pontio grwpiau oedran cynradd ac uwchradd, canfu Ofsted bod <b>gwell pontio</b> rhwng ysgolion a <b>llai o amharu ar gynnydd disgyblion</b> . Ym mhob achos, defnyddiwyd un system o <b>asesu ac olrhain</b> cynnydd disgyblion.
Mewn ffederasiynau da, canfu Ofsted fod arweinwyr yn gwneud y gorau o fwy o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a'u bod yn defnyddio'r rhain i gyflawni eu blaenoriaethau. Yn holl bwysig, roedd <b>hyfforddiant</b> a datblygiad yn cael eu teilwra'n ofalus i ddiwallu anghenion yr ysgol. Mae ffederasiynau'n galluogi ysgolion sy'n cymryd rhan i ddod yn <b>sefydliadau dysgu</b> mwy effeithiol ar gyfer y staff sy'n addysgu ynddynt oherwydd eu bod yn gallu cyfuno <b>arbenigedd</b> .
Yn ei adroddiad ar ei adolygiad o gyflenwi Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y dyfodol, mae Robert Hill yn nodi bod ffederasiynau a mathau eraill o bartneriaeth ysgol ffurfiol yn darparu llwyfan cryf ar gyfer mwy o annibyniaeth a chodi <b>cyrhaeddiad</b> ysgolion.
Mae ffederasiynau'n hwyluso mwy o <b>rannu arfer gorau</b> a fydd yn helpu i godi safonau a gwella perfformiad.
Ni all corff llywodraethu ffederasiwn ei gwneud yn ofynnol i staff presennol weithio ar draws pob ysgol o fewn y ffederasiwn, ond gallant drafod gydag undebau staff yr ysgolion ynghylch a ellir cyflwyno <b>contractau hyblyg</b> . Gellir penodi staff newydd i weithio ar draws ysgolion yn y ffederasiwn.
Gall corff llywodraethu ffederasiwn ddefnyddio cyllideb, adnoddau a <b>staff newydd ar draws y ffederasiwn</b> i wella'r canlyniadau addysgol ar gyfer y disgyblion i gyd. Rhaid cadw llwybr archwilio a chynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn.

<sup>3</sup> <http://www.ofsted.gov.uk/resources/leadership-of-more-one-school>

Mae ffedereiddio yn cyflwyno cyfleoedd i <b>greu rolau newydd y gellir eu rhannu ar draws ysgolion</b> hy bwrsar, rheolwr rhwydwaith TGCh, athro drama, athrawon peripatetig ac ati.
Gall ffedereiddio helpu i: sicrhau mwy o <b>gysondeb</b> o ran <b>methodoleg addysgu a dysgu</b> yn enwedig ar draws cyfnodau; <b>lleihau gostyngiadau trosiannol</b> ym mherfformiad disgyblion; a gwella <b>cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau disgyblion</b> wrth i ysgolion ddod ynghyd i ddarparu mynediad at gyfleusterau ei gilydd, gan arwain at <b>welliannau i ansawdd y dysgu ar gyfer staff a disgyblion</b> .
<b>Arweinyddiaeth</b>
Nododd adroddiad Ofsted fod yr arweinwyr a'r llywodraethwyr a gafodd eu cyfweld yn gadarnhaol ynghylch manteision ffedereiddio. Roeddent yn ystyried mai <b>datblygiad proffesiynol, cadw staff</b> , mwy o <b>adnoddau ar gael</b> a'r <b>gallu i ddenu arweinwyr o ansawdd uchel</b> oedd y rhesymau allweddol pam yr oedd ffedereiddio yn arwain at welliannau i'r ddarpariaeth.
Yn wahanol i ysgol pob oed, mewn ffederasiwn gall pob ysgol gadw ei phennaeth. Trwy wneud hynny, gall y ddwy ysgol <b>gadw eu capasiti cyffredinol o ran arweinyddiaeth</b>
Mae'n helpu i oresgyn problemau gyda <b>recriwtio llywodraethwyr</b> mewn ardaloedd gwledig lle mae swyddi gwag hirdymor yn bodoli.
Gall ffedereiddio helpu i: <b>symleiddio polisiau a strwythurau</b> a chynyddu'r cyfle i <b>ddatblygu rheolaeth ganol</b> .
Gall corff llywodraethu ffederasiwn ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n gweddu i'w hamgylchiadau penodol cyn belled â bod ganddynt o leiaf 15 o lywodraethwyr a dim mwy na 27 o lywodraethwyr a'u bod yn cadw at isafswm ac uchafswm y llywodraethwyr a nodir yn y rheoliadau. Bydd penderfynu ar aelodaeth yr un corff llywodraethu yn gam pwysig i'r llywodraethwyr gan y byddant am gyflawni'r cydbwysedd cywir o ran sgiliau a phrofiad i ddiwallu anghenion yr holl ysgolion a helpu i leihau'r baich ar uwch staff. Byddant yn gallu tynnu ar sgiliau aelodau o'r ddau gorff llywodraethu i helpu i ddarparu'r sgiliau penodol sydd eu hangen i wella <b>effeithiolrwydd y corff llywodraethu</b> , megis sgiliau rheoli ariannol.
<b>Adnoddau</b>
Canfu Ofsted fod y pryderon cychwynnol a oedd gan staff, rhieni a phlant am ffederasiynau bron bob amser yn cael eu goresgyn trwy gyfathrebu ac ymgynghori da. Roedd penodi <b>rheolwr busnes</b> neu fwrsar yn aml yn ffactor allweddol o ran goresgyn problemau ymarferol oedd yn gysylltiedig â chyllid a'r safle.
Mae ysgolion mewn ffederasiwn yn gallu archwilio'r manteision o <b>rannu adnoddau</b> fel cyfleusterau, TG, staff, adeiladau ac ati i gyflawni effeithlonrwydd ariannol ac <b>arbedion maint</b> .
<b>Y gymuned a hunaniaeth</b>
Gall ffedereiddio helpu i wella <b>cyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion</b> trwy weithgareddau ar y cyd.
Mae adborth gan benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos unwaith bod y ffederasiwn wedi cael amser i wreiddio, bod yr ysgolion yn y ffederasiwn a'r llywodraethwyr yn fwy cyfforddus â'r trefniadau.
Mae ysgolion sy'n ffedereiddio yn aros yn eu <b>cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol</b> .

Bydd ysgolion mewn ffederasiwn hefyd yn gallu <b>cynnal eu cyllideb wedi'i dirprwyo, ei henw, cymeriad, gwisg ysgol a'i hethos ei hun.</b>
Mae'r bartneriaeth yn cryfhau yn hytrach na bygwth nodweddion a rhinweddau ysgolion unigol o fewn y ffederasiwn.
<b>Mae pob ysgol yn cael ei arolygiad Estyn ei hun</b> , er bod y rhain yn gynyddol yn cael eu cydlynu i ddigwydd ar yr un pryd i bob ysgol o fewn y ffederasiwn er mwyn lleihau straen ac aflonyddwch.
Mae'n ofyniad statudol i geisio <b>barn rhanddeiliaid</b> ar gynigion ynghylch ffedereiddio, p'un a yw'r cyrff llywodraethu ysgolion priodol neu'r ALI wedi cynnig y ffederasiwn.
<b>Cyffredinol</b>
Gall ffederasiynau gael eu diddymu os nad ydynt yn gweithio. Gallai ysgolion a gynhwysir o fewn ffederasiwn a weithredir gan gorff llywodraethu adael os yw'r corff llywodraethu ffederal yn cytuno i gais ysgrifenedig.

Anfanteision
<b>Llwyth gwaith</b> cynyddol i <b>lywodraethwyr, yn enwedig ar y dechrau ac yn y flwyddyn gyntaf.</b>
Posiblwydd o <b>golli llywodraethwyr profiadol.</b>
Efallai y bydd llywodraethwyr, staff ysgol a rhieni yn poeni y bydd eu hysgol nhw yn cael ei <b>thrin yn llai ffafriol</b> nag ysgolion eraill yn y ffederasiwn.
Nid yw ysgol uwchradd ac ysgol gynradd Llanidloes wedi cael <b>problemau sylweddol gyda recriwtio</b> llywodraethwyr. Felly, nid yw ffedereiddio yn debygol o ychwanegu gwerth ym maes recriwtio llywodraethwyr.
Diffyg ymddiriedaeth posibl ar y dechrau <b>ymysg llywodraethwyr, rhieni a staff</b> - mae angen amser i bethau wreiddio

Mae'r llywodraethwyr o'r farn bod yr heriau a'r materion yma yn medru cael eu llinaru, ond bydd hyn angen ymrwymiad ac adnoddau.

## 8. MODELAU ERAILL A YSTYRIWYD

Mae'r llywodraethwyr wedi ystyried manteision sefydlu Ysgol Pob Oed yn Llanidloes. Byddai hyn yn golygu y byddai Ysgol G.G. Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes yn uno i greu ysgol 4 – 18 newydd.

Mae nifer o resymau pam, ym marn y Llywodraethwyr, Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr, mae'n well dewis ffedereiddio yn hytrach nag ysgol pob oed yn Llanidloes ar hyn o bryd:

- Mae gan ysgol pob oed un pennaeth. Wrth ffedereiddio ysgolion bach, gellir gweld hyn fel effeithlonrwydd dymunol. Ond wrth ffedereiddio ysgolion mwy, gallai dewis un pennaeth gael canlyniadau negyddol anfwriadol. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - colli gallu arweinyddiaeth sylweddol yn un neu'r ddwy ysgol;
  - colli swyddi posibl sy'n arwain at ysbryd isel a chefnogaeth gyfyngedig o ysgolion sy'n cymryd rhan;
  - cynnydd sylweddol yn y baich gwaith ar gyfer y pennaeth sydd ar ôl;
  - arbenigedd annigonol o ran ysgolion cynradd / uwchradd ar y tîm arweinyddiaeth uwch sy'n arwain at wneud penderfyniadau annoeth yn ymwneud â materion yn ymwneud â'r cyfnodau cynradd / uwchradd;
  - colli arweinwyr ysgol gynradd / uwchradd ardderchog oherwydd diffyg cyfleoedd dilyniant.
- Gellir ystyried penaethiaid ysgol pob oed fel rhai sydd ddim yn rhannu eu hamser yn deg rhwng pob safle ysgol. Efallai y bydd cymunedau ysgolion cynradd /uwchradd yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu yn cael eu trin fel y perthynas tlawd yn dibynnu ar a yw'r pennaeth yn arbenigwr cynradd neu uwchradd. Gall hyn greu anfodlonrwydd a thyndra sy'n rhwystro cydweithio effeithiol. Mewn ffederasiwn gyda dau bennaeth o statws cyfartal, mae'r problemau hyn yn cael eu hosgoi.
- Ar hyn o bryd mae adroddiadau arolygu Estyn o ysgolion pob oed yn cael eu dominyddu gan werthusiad a dadansoddiad o ysgolion uwchradd. Mae hyn yn ychwanegu at y canfyddiad bod partneriaid cynradd mewn ysgolion pob oed yn cael eu tanbriso. <sup>4</sup>

Mae ysgol gynradd Llanidloes yn ysgol gynradd fawr ac, o'r herwydd mae'n haeddu cael pennaeth ar y safle trwy gydol yr wythnos.

---

<sup>4</sup> <https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Ebbw%20Fawr%20Learning%20Community.pdf>

## 9. EFFAITH FFEDEREIDDIO

### i) SUT BYDDAI FFEDEREIDDIO YN EFFEITHIO AR DDISGYBLION A RHINIENI?

Ar lefel dyddiol, ni fyddai yna effaith gweladwy. Byddai'r ddwy ysgol yn cadw'u hethos, hunaniaeth a gwisg ysgol a bydd y plant yn parhau i gael eu dysgu yn eu dosbarthau presennol.

Bwriedir i ffedereiddio alluogi ysgolion i adeiladau ar eu llwyddiannau diweddar a pharhau gyda'r gwelliannau mewn perfformiad. Mae disgwyl bydd mwy o gyfleon i ddisgyblion i ddatblygu, yn addysgol a chymdeithasol. Yn benodol,

In particular, it is expected that Federation would lead to greater opportunities for team sports across all of the schools in the Federation.

Mae'r potensial i ddisgyblion a rhieni i fanteisio o'r canlynol:

- Rhannu profiadau ac ymarfer dysgu o ansawdd uchel
- Rhannu arfer dda ar draws yr ysgolion
- Ymagwedd gydweithiol ar gyfer datblygiadau newydd
- Mwy o gyfleon ehangach ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chorfforol
- Cyfleon i gydlynu gweithgareddau ar draws yr ysgol a rhannu adnoddau ar draws yr ysgol.

### ii) SUT BYDDAI FFEDEREIDDIO YN EFFEITHIO AR Y CORFF LLYWODRAETHOL?

Fel rhan o'r broses o ffedereiddio, mi fydd y cyrff llywodraethol presennol yn dod i ben a byddai un corff llywodraethol yn cael ei sefydlu. Yn seiliedig ar y canllawiau presennol (Proses Ffederiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru, Mai 2014), byddai gan y corff llywodraethol newydd ddim llai na 15 a ddim mwy na 27 o lywodraethwyr.

Mae'r manylion y nifer uchaf o aelodau'r corff llywodraethol ar gael yn y tabl isod:

Categori aelodaeth	Nifer
Rhieni	4
Athrawon	2
Staff nad ydynt yn athrawon	2
Awdurdod Lleol	4
Cymunedol	4
Prifathrawon	2
Llywodraethwr/wraig cymunedol ychwanegol	1

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar reoliadau newydd ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethol yn ystod 2017. Pe bai unrhyw reoliadau newydd yn do di rym yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai angen newidiadau i gyfansoddiad y corff llywodraethol.

### iii) SUT BYDDAI'R FFEDEREIDDIO YN EFFEITHIO AR GYLLID?

#### Cyllid Refeniw

Ni fyddai yna unrhyw effaith ar gyllideb refeniw y naill ysgol, gan y byddent yn parhau i gael eu hariannu yn unol â fformiwla ariannu'n deg y Cyngor – mae ysgolion mewn ffederasiwn yn parhau i gael eu cyllido ar wahan, er bod hi'n bosib iddynt gyfuno'u cyllidebau. Ond mi fyddai'r ffederasiwn yn medru ymchwilio i fanteision **rhannu adnoddau**, adeiladau, TG, staff ayb er mwyn medru cyflawni effeithiolrwydd ariannol ac **arbedion maint**.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflawni adolygiad o'i fformiwla ariannu teg a'r disgwyl yw y bydd yn cael ei weithredu o flwyddyn ariannol 2019/20 ymlaen. Oherwydd na wyddom ar hyn o bryd beth fydd canlyniad yr adolygiad o'r fformiwla ariannu teg, ni allwn roi amcan o beth fyddai'r effaith ariannol. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r ysgol newydd weithredu o fewn y gyllideb fydd yn cael ei dyrannu iddi ar sail y fformiwla ariannu teg newydd.

#### Cyllid Cyfalaf

Ni fyddai angen unrhyw gyllid cyfalaf i weithredu'r cynnig. Byddai'r ffederasiwn yn gweithredu ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes. Gall yr adeiladau presennol dderbyn y nifer bresennol a'r amcan-nifer o ddisgyblion.

Er hyn, rydyn ym poeni am safon adeiladau'r ddwy ysgol a rydym yn awyddus iawn bod Cyngor Sir Powys yn blaenoriaethu buddsoddiad yn ein hystâd ysgolion. Mae Cynllun Rheolaeth Asedau Ysgolion (Medi 2018) y Cyngor yn nodi bod blaenoriaethau buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- *'Cyflwr, Addadwrwydd, CynladwyeddCondition; Suitability, Sustainability*
- *Digonolrwydd, a;*
- *Materion lechyd a Diogelwch.*

*Rhoddir ystyriaeth hefyd i ysgolion sy'n ran o ddatblygiadau strategol ad-drefnu ysgolion, presennol neu yn y dyfodol.'*<sup>5</sup>

---

5

<https://powys.moderngov.co.uk/documents/s31000/Appendix%201%20SAMP%20FINAL%2025%20Sept%202019.pdf>

Rydym fel llywodraethwyr yn poeni bod Ysgol Gynradd Llanidleos eisoes dros capasiti ac mae niferoedd disgyblion ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanidoes yn cynyddu, a bydd hyn yn effeithio ar y capasiti yn y dyfodol.

**iv) SUT BYDDAI FFEDEREIDDIO YN EFFEITHIO AR ARWEINYDDIAETH A STAFFIO?**

Bydd y ddwy ysgol yn parhau gyda phrifathrawon eu hun. Er hynny, bwriedir y bydd yna berthynas waith glos rhwng y prifathrawon, uwch dimoedd rheoli a staff eraill o fewn y ffederasiwn. Ni fydd newidiadau i gytundebau presennol athrawon a staff eraill cyn sefydlu'r ffederasiwn.

Ar ol sefydlu'r ffederasiwn, byddai unrhyw staff newydd yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol gan y ffederasiwn, a byddai cymalau hybylg addas yn cael eu cynnwys yn eu cytundebau cyflogaeth.

**v) SUT BYDDAI FFEDEREIDDIO YN EFFEITHIO AR Y BROSES DDERBYNIADAU?**

Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Bydd rhieni yn medru gwenudd cais ar gyfer lle yn y ddwy ysgol yn uniongyrchol at y Gygor Sir Powys, a bydd lleoedd yn cael eu darparu yn unol â Pholisi Derbyniadau'r Cyngor, sydd ar gael yn y ddwy ysgol.

Petai'r ffederasiwn yn cael ei sefydlu, byddai'r broses dderbyniadau ar gyfer y ddwy ysgol yn parhau yr un fath â nawr.



## **Atodiad A**

### **Crynodeb o'r broses ffedereiddio**

#### **Cam Un – Ystyried**

- Datganiadau o ddiddordeb gan ysgolion
- Cytuno ffactorau sbarduno a diben ffedereiddio
- Ysgolion yn gofyn am wybodaeth a chanllawiau gan yr awdurdod lleol ac yn cynnal trafodaethau cynnar
- Rhoi gwybod i staff am y broses ac unrhyw oblygiadau. Cadw Undebau wedi'u hysbysu
- Sefydlu Gweithgor Llywodraethwyr gyda chynrychiolwyr gan yr holl ysgolion i arwain y broses
- Penderfynu dyddiad ar gyfer dechrau'r ffederasiwn
- Ystyried siarad â, neu ymweld ag ysgolion eraill sydd wedi ffedereiddio

#### **Cam Dau – Paratoi**

- Llywodraethwyr yn cytuno paratoi adroddiad er mwyn ymgynghori gyda rhanddeiliaid
- Llywodraethwyr yn penderfynu ar strwythur llywodraethu – aelodaeth a chyfansoddiad corff llywodraethol y ffederasiwn
- Cytuno enw ar gyfer y ffederasiwn
- Ystyried y strwythur rheoli a'r strwythur staffio
- Ymchwilio unrhyw faterion ariannol neu faterion Adnoddau Dynol

#### **Cam Tri – Yr Adroddiad ac Ymgynghori**

- Gofyn am gymorth gan yr ALI i baratoi'r adroddiad ymgynghori. Dylai'r cyfnod ymgynghori barhau am o leiaf 6 wythnos. (Mae Cyngor Sir Powys wedi cynnig rheoli'r broses ymgynghori ar ein rhan)
- Adroddiadau drafft i gael eu hystyried gan y cyrff llywodraethol yn eu cyfarfod nesaf
- Rhaid i'r adroddiad fod yn eitem Agenda y rhoddwyd o leiaf pum diwrnod gwaith o rybudd ohono
- Rhaid i bob corff llywodraethol benderfynu os yw'n dymuno parhau
- Dylai'r adroddiad:

- Gynnwys manylion llawn y cynnig, yn cynnwys maint/cyfansoddiad y corff llywodraethol sengl, trefniadau rheolaeth a staffio, a'r awdurdod derbyniadau
- Esbonio'r rhesymau dros ffedereiddio, manteision ffedereiddio a sut yr ymdrinnir â heriau posibl
- Cynnwys y dyddiad y bydd y ffederasiwn yn weithredol – rhaid i hyn fod o leiaf 125 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig
- Ymgynghori gyda rhanddeiliaid – yr Awdurdod Lleol, rhieni, staff yr holl ysgolion, undebau staff, yr esgobaeth

#### **Cam 4 – Diffinio**

Mewn ymgynghoriad efo'r Awdurdod Lleol

- Dechrau ystyried a ddiffinio swyddogaethau arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn
- Dechrau paratoi swydd ddisgrifiadau a chytundeb ar gyfer unrhyw swyddi a swyddogaethau newydd
- Cynnwys y strwythur staffio arfaethedig yn yr adroddiad ymgynghori

#### **Cam 5 – Ar Ôl Ymgynghori**

- Cyfarfod ar y cyd o'r cyrff llywodraethol i ystyried ymatebion – dylid cynllunio'r cyfarfod hwn ar ddechrau'r broses ymgynghori i sicrhau presenoldeb llawn a.y.b.
- Darparu adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i bob corff llywodraethol ei ystyried

#### **Cam 6 – Gweithredu**

- Cyrff llywodraethol unigol i gwrdd i wneud y penderfyniad terfynol o ran a ydynt yn dymuno parhau – cyfarfodydd ar yr un pryd mewn gwahanol ystafelloedd
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am y penderfyniad
- Cyd-gysylltu efo'r ALI a'r Esgobaeth
- Ffurfioli swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr
- Sefydlu gweithgor llywodraethwyr i ddarparu cynllunio strategol ac i weithredu
- Cytundeb gydag adran cefnogi llywodraethwyr yr ALI i sicrhau dilyniant

#### **Cam 7 – Esblygiad**

- Corff llywodraethol sengl yn cwrdd i ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd

- Llywodraethwyr yn cytuno strwythur pwyllgorau a chalendr cyfarfodydd
- Swyddogaethau staff newydd yn weithredol
- Cynllun Gwella Ysgol yn targedu adnoddau ac arbenigedd ar godi safonau ar draws y ffederasiwn
- Calendrau a phrosesau proffesiynol wedi'u halinio

### **Cam 8 – Ymgorffori**

- Swyddogion allweddol o'r ALI yn gallu cynnig cefnogaeth deallus
- Trosolwg o drefniadau'r ffederasiwn a'r effaith ar safonau a gallu'r ysgolion i wella
- Cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygiad proffesiynol
- Arferion, prosesau, polisïau a dogfennaeth model yn eu lle

## Atodiad B

### FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD – FFEDERASIWN YSGOLION LLANIDLOES

Mae Cyrff Llywodraethol Ysgol GG Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes yn ymgynghori ar gynnig i ffedereiddio'r ddwy ysgol.

Mae dogfen ymgynghori sy'n darparu mwy o wybodaeth ar gael gan y ddwy ysgol, neu ar wefan y Cyngor yn <https://cwsmer.powys.gov.uk/article/6456/Ffederasiwn-Ysgolion-Llanidloes>. Mae'r ffurflen ymateb hon yn rhoi cyfle i chi rannu eich barn ar y cynnig.

Gellir llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein hefyd – mae'r ffurflen ar-lein ar gael trwy ddilyn y linc uchod.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw **25 Ionawr 2019**. Rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn y dyddiad hwn.

Bydd yr holl wybodaeth a dderbyniwn drwy'r arolwg hwn yn cael ei gweinyddu o dan reolau Deddf y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. I gael gwybod mwy am sut y mae Cyngor Sir Powys yn gweithredu'n unol â'r rheolau hyn, ewch i <http://www.powys.gov.uk/cy/rheoli-gwybodaeth/telerau-ac-amodau/>

### FFURFLEN YMATEB

1. Dywedwch os gwelwch yn dda beth yw eich cysylltiad â'r ysgolion y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt:

Rhiant, gofalwr neu warcheidwad	<input type="checkbox"/>	Aelod o staff	<input type="checkbox"/>
Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad	<input type="checkbox"/>	Aelod o'r gymuned	<input type="checkbox"/>
Llywodraethwr	<input type="checkbox"/>	Dim cysylltiad	<input type="checkbox"/>
Cysylltiad arall (rhowch fanylion)	<input type="checkbox"/>		

2. Dywedwch gyda pha ysgol y mae gennych gysylltiad:

Ysgol Gynradd Llanidloes	<input type="checkbox"/>	Ysgol Uwchradd Llanidloes	<input type="checkbox"/>	Ysgol arall	<input type="checkbox"/>	Dim cyswllt	<input type="checkbox"/>
--------------------------	--------------------------	---------------------------	--------------------------	-------------	--------------------------	-------------	--------------------------

Nodwch eich ymatebion i'r cwestiynau isod.

3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig presennol i ffedereiddio Ysgol Gynradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd Llanidloes?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

4. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglyn â'r ffederasiwn nad ydynt wedi cael eu hateb yn y ddogfen ymgynghori, nodwch hwy yma:

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

### **Gwybodaeth Cydraddoldebau**

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn cynnwys holl sectorau'r gymuned yn ein hymgyngoriad, a gofynnwn i chi felly roi'r wybodaeth yma i ni fel y gallwn gadarnhau a yw'r ymgynghoriad wedi bod yn gynhwysol.

Fodd bynnag, nid oes raid i chi ateb y cwestiynau hyn. Byddwn yn ystyried pob ymateb wrth benderfynu sut i symud ymlaen, p'un ai yw'r wybodaeth yma wedi cael ei darparu gennych neu beidio.

5. Ydych chi'n gallu deall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?

Ydw       Nac ydw       Ddim am ddweud

6. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim?

Oes       Nag oes       Ddim am ddweud

7. Os oes gennych blant oed ysgol, a oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol?

Oes       Nag oes       Ddim am ddweud

8. Ydych chi'n ystyried eich hun i fod yn anabl?

Ydw

Nac ydw

Ddim am ddweud

9. Beth yw eich grŵp ethnig?

Gwyn

Grŵp ethnig cymysg neu luosog

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig

Unrhyw grŵp ethnig arall

Ddim am ddweud

Diolch am lenwi'r holiadur hwn.

Dylid anfon holiaduron wedi'u llenwi at y cyfeiriad canlynol, i gyrraedd **erbyn dydd Gwener 25 Ionawr 2019 ar yr hwyraf:**

*Tîm Trawsnewid Ysgolion,  
Cyngor Sir Powys,  
Neuadd y Sir,  
Llandrindod,  
LD1 5LG*

*E-bost: [school.consultation@powys.gov.uk](mailto:school.consultation@powys.gov.uk)*